UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Cyngor Proffesiynol

# Disgyblion bygythiol

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.ucac.cymru

# Disgyblion bygythiol

Yn anffodus, ambell waith mae athrawon a darlithwyr yn wynebu sefyllfa lle nad oes modd rheoli ymddygiad disgybl neu fyfyriwr, neu lle nad yw'n rhesymol disgwyl iddynt wneud.

Cynigia'r daflen hon gyngor ar gyfer y sefyllfaoedd hynny pan fydd angen ystyried cymryd camau i fynd i'r afael â'r sefyllfa.

## Sefyllfa o ddisgybl bygythiol neu ddisgybl wedi taro athro

Nid oes hawl awtomatig i wrthod dysgu disgybl; byddai gwneud hynny'n golygu torri'r cytundeb gwaith; mae'r *Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol* yn cyfeirio at gyfrifoldeb athro i "addysgu gwersi i'r dosbarthiadau y caiff ei neilltuo i'w haddysgu" (paragraff 49.2)

Wedi dweud hynny, mae UCAC o'r farn ei fod yn gwbl annerbyniol i athrawon fod dan straen oherwydd ymddygiad disgyblion neu iddynt fod dan fygythiad mewn unrhyw ffordd yn y gweithle. Nid yw'n rhesymol i ddisgwyl i chi weithio mewn sefyllfaoedd bygythiol.

Petai gan aelod bryder am iechyd a diogelwch oherwydd disgybl byddai UCAC ar gael i gynghori'r aelod ac i gynnig cefnogaeth lawn.

## Trafodaeth gyda'r Pennaeth a Swyddog UCAC

Y cam cyntaf yw sicrhau bod y Pennaeth yn ymwybodol o bryderon y staff a'r rhesymau am y pryderon hynny, ac yn cael cyfle i fynd i'r afael â'r broblem.

Mae'n rhaid rhoi cyfle i'r Pennaeth ddatrys y broblem cyn gweithredu mewn unrhyw ffordd arall. Gall Swyddog Maes drefnu cyfarfod gyda'r Cynrychiolydd ysgol a'r Pennaeth er mwyn trafod a phwysleisio difrifoldeb y sefyllfa.

## Cyflwyno Cwyn Swyddogol

Yn ogystal, mae modd cyflwyno cwyn swyddogol i'r Pennaeth o dan weithdrefn gwyno'r ysgol. Gellir gwneud hyn naill ai fel unigolyn sydd wedi'i effeithio gan ymddygiad disgybl, neu fel cwyn torfol gan grŵp o aelodau staff. Byddai'n rhaid i'r llywodraethwyr ymchwilio i'r gŵyn.

## Pleidlais swyddogol am wrthod dysgu'r disgybl

Os oes sefyllfa'n codi lle nad yw athrawon wedi cael cefnogaeth i ymdrin â disgybl bygythiol, mae aelodau UCAC mewn rhai ysgolion wedi mynd i bleidlais ynglŷn â gwrthod dysgu disgybl. Rhaid gallu dangos bod yr Uwch Dîm Rheoli wedi cael cyfle digonol i weithredu cyn cymryd y cam hwn.

Mae cynnal pleidlais gudd swyddogol, naill ai ymhlith aelodau un undeb neu ymhlith y staff cyfan, yn diogelu aelodau rhag cyhuddiad o dor-cytundeb.

Os yw'r posibilrwydd o gynnal pleidlais dan ystyriaeth, bydd Swyddog Maes ar gael i drafod y mater gyda'r staff a'r Pennaeth. Mae'n rhaid dilyn camau cyfreithiol ac amserlen benodol ar gyfer pleidlais gudd a bydd y Swyddog Maes yn gallu cynghori ar hynny a llywio'r trefniadau.

**I gael cyngor neu arweiniad pellach, cysyllter â'r Swyddog Maes perthnasol. Ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950 i gael sgwrs â:**

- Mererid Lewis Davies, Swyddog Maes y De-ddwyrain, mererid@ucac.cymru
- Jen Jones, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, jen@ucac.cymru
- Gareth Morgan, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, gareth@ucac.cymru
- Roger Vaughan, Swyddog Maes y Gogledd, roger@ucac.cymru
- Ywain Myfyr, Swyddog Maes, ywain@ucac.cymru

**Yn ogystal, mae modd cysylltu ag:**

- Ioan Rhys Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol, ioan@ucac.cymru
- Iona Davies, Swyddog Polisi, iona@ucac.cymru

**Diweddarwyd: Ebrill 2023**

**UCAC**
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

www.ucac.cymru